# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 8 – Dehongli a Darpariaethau Terfynol

### *Atodlen 16 – Rhyddhad gr#p*

### Rhan 3 - Cyfyngiadau ar argaeledd rhyddhad gr#p

369. Mae Rhan 3 o'r Atodlen yn nodi rheolau penodol ar wrthweithio osgoi trethi (gydag eithriadau a nodir ym mharagraff 4(2) a (7)) sy'n cyfyngu ar argaeledd rhyddhad gr#p. Mae'r Rhan hon yn gymwys pan ymrwymir i fathau gwahanol o drefniadau sy'n golygu y gall y cwmni caffael ddod o dan reolaeth o'r tu allan i'r gr#p, pan ganiateir i gydnabyddiaeth gael ei darparu o'r tu allan i'r gr#p, neu pan fo'r gwerthwr a'r prynwr i beidio â bod yn aelodau o'r un gr#p. Pan fo trefniadau o'r fath yn bodoli ar y dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith, nid yw rhyddhad gr#p ar gael.

370. Fodd bynnag, ni chyfyngir ar argaeledd rhyddhad gr#p pan fo cytundebau sy'n llywodraethu cwmni cyd-fenter yn drefniadau a ddisgrifir ym mharagraff 5(2) ac nad oes dim o'r digwyddiadau dibynnol a bennir ym mharagraff 5(3) wedi digwydd. Nid yw trefniadau morgais penodol yn dod o fewn y rheol sy'n cyfyngu ar argaeledd rhyddhad gr#p ychwaith ar yr amod bod y cyfranddaliadau neu'r gwarannau mewn cwmni yn cael eu defnyddio fel sicrhad o dan forgais, sydd yn achos drwgdaliad neu ddigwyddiad arall yn caniatáu i'r morgeisai arfer ei hawliau yn erbyn y morgeisiwr ac nad yw'r morgeisai wedi arfer ei hawliau yn erbyn y morgeiswr. Ond mae hyn yn ddarostyngedig i'r eithriadau ym mharagraff 6.